Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Haven

# Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Haven

Mae The Haven yn ysgol ddydd annibynnol sydd wedi'i chofrestru i ddarparu addysg i hyd at wyth disgybl 11 i 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Yr elusen, Autism Initiatives, sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion yr Wyddgrug yng ngogledd Cymru. Mae'r llety'n cynnwys tair ardal ddysgu sy'n gyfforddus ac sydd ag adnoddau da i fodloni anghenion dysgu a chymdeithasol y disgyblion. Mae tir helaeth yno sy'n cynnwys tŷ gwydr, siediau a gerddi llysiau.

Ar hyn o bryd, mae ychydig bach iawn o ddisgyblion dydd ar y gofrestr, bob un ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan bob disgybl ddiagnosis o awtistiaeth. Sir y Fflint yw awdurdod lleoli'r disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2019.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r cwmni wedi cymryd camau addas i gryfhau'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi sicrhau strwythur staffio sy'n caniatáu am barhad wrth gyflwyno'r cwricwlwm a rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn helpu'r ysgol i ddarparu amgylchedd anogol lle y mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol. Mae'r athro a'r cynorthwyydd cymorth dysgu yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth i fyfyrio'n ofalus ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent wedi amlygu blaenoriaethau addas ar gyfer gwella ac wedi cryfhau prosesau hunanwerthuso.

Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o system a gyflwynwyd yn ddiweddar i olrhain cynnydd disgyblion ac mae wedi cyflwyno asesiadau gwaelodlin a thargedau perthnasol ar gyfer disgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr ymweliad monitro blaenorol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn. O ganlyniad, hwyrach y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ailystyried y cyfyngiad presennol ar recriwtio disgyblion newydd.

### *Meysydd i'w datblygu*

Nid yw'r polisi presennol ar addysg bersonol a chymdeithasol na'r cynlluniau gwaith wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr ymweliad monitro diwethaf. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae llawer o'r mentrau hyn.

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Lunio'r polisi iechyd ac addysg bersonol a chymdeithasol yn derfynol a diwygio'r cynllun gwaith yn unol â'r diwygiadau i'r polisi**

**A2. Monitro effaith mentrau newydd.**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Roedd yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod arweinwyr a staff yn strwythuro trefniadau ar gyfer yr ysgol o fis Ionawr 2019

Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau addas i gefnogi nifer y disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pennaeth presennol yn ei swydd fel pennaeth dros dro rhwng Ionawr 2019 a Mawrth 2019, pan benodwyd hi i'r swydd yn barhaol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol un athro dosbarth ac un cynorthwyydd cymorth dysgu, ill dau'n aelodau parhaol o staff.

### Argymhelliad 3: Creu gwaelodlin o fedrau disgyblion ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion

Er Ionawr 2019, mae'r ysgol wedi adolygu'r trefniadau cyfyngedig iawn ar gyfer asesu disgyblion a oedd ar gael yn yr ysgol yn flaenorol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cyflwyno asesiadau Saesneg a mathemateg i sefydlu mannau cychwyn disgyblion yn y meysydd hyn. Mae gwybodaeth waelodlin yn dechrau llywio gwaith yr athro o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer tymor yr hydref 2019. Mae'n rhy gynnar eto i werthuso effaith y newid diweddar hwn.

### Argymhelliad 4: Gwella trefniadau i wella presenoldeb disgyblion sy'n absennol yn barhaus

Mae gan yr ysgol systemau addas ar waith i olrhain a monitro presenoldeb ac, o ganlyniad, mae presenoldeb wedi gwella. Fe wnaeth presenoldeb y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd wella o leiaf 10 pwynt canran yn 2018-2019 o gymharu â 2017-2018. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn gallu ymateb i unrhyw rwystrau posibl rhag presenoldeb.

### Argymhelliad 5: Cynyddu ystod yr achrediad sydd ar gael i ddisgyblion

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi ymestyn ystod y cyfleoedd achredu sydd ar gael i ddisgyblion. Mae ffocws priodol ar baratoi ar gyfer bywyd a datblygiad personol.

### Argymhelliad 6: Gwella hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fanylach ar safonau disgyblion

Ers yr ymweliad monitro blaenorol, mae'r ysgol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wella polisi ac arfer ym mhob agwedd ar ei gwaith. Bellach, mae'r pennaeth yn defnyddio ystod briodol o wybodaeth am gynnydd disgyblion i werthuso'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gwerthuso effaith i lywio cynllunio.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/11/2019